# Agenda - Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ionawr 2024

Amser: 11.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPLl@senedd.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(11.30 - 11.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Craffu ar amcangyfrif atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023/24

(11.45 - 12.45) (Tudalennau 1 - 11)

Y Fonesig Elan Closs Stephens CBE - Comisiynydd Etholiadol Cymru

Rob Vincent – Prif Weithredwr dros dro y Comisiwn Etholiadol

David Moran – Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Comisiwn Etholiadol

Rhydian Thomas - Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, y Comisiwn Etholiadol

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 4 Craffu ar amcangyfrif atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023/24 Trafod y dystiolaeth

(12:45 - 13:00)

## 5 Papur i'w nodi

(Tudalennau 12 - 17)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor y Llywydd**
—
**Llywydd's Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPLl@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPLl
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLlC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLlC
0300 200 6565

Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens
Cadeirydd
Comisiwn Etholiadol Cymru
Drwy e-bost

Dyddiad: 29 Tachwedd 2023

Pwnc: Cyllideb atodol y Comisiwn Etholiadol 2023/24

Annwyl Elan,

Mae Pwyllgor y Llywydd wedi trefnu cyfarfod ychwanegol ar 22 Ionawr 2024 at ddibenion craffu ar gais y Comisiwn Etholiadol o ran ei gyllideb atodol ar gyfer 2023-24.

Cyn yr ystyriaeth hon, nododd y Pwyllgor yn y cyfarfod ar 7 Tachwedd fod Shaun McNally wedi cadarnhau mewn ymateb i gwestiwn Llŷr Gruffydd AS fod y taliad costau byw o £1500, sydd wedi'i gynnwys yn y cais atodol, eisoes wedi'i wneud i staff y Comisiwn Etholiadol. Nododd Shaun McNally hefyd na fyddech yn gallu ariannu'r taliad costau byw heb gyllid ychwanegol drwy broses y gyllideb atodol. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ystyried eich cais, a allwch chi neu Shaun McNally, fel y Swyddog Cyfrifyddu, roi sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra a phriodoldeb gwneud y taliad hwn cyn i'r Senedd gytuno ar gyllideb atodol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Siaradwr Tŷ'r Cyffredin ac at Lywydd Senedd yr Alban, oherwydd y croesiad o ran y cyfrifoldeb dros gytuno ar gyllid rhwng gwahanol rannau'r Comisiwn.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS, Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg/ We welcome correspondence in Welsh or English.

The Electoral Commission

3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Tel: 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
electoralcommission.org.uk

David Rees AS
Cadeirydd
Pwyllgor y Llywydd
Drwy e-bost

12th December 2023

Annwyl Mr Rees

Mae'r Fonesig Elan wedi gofyn i mi ymateb i'ch llythyr ati ar 29 Tachwedd, i roi sicrwydd ynghylch cysondeb a phriodoldeb taliadau costau byw'r Comisiwn o £1,500 fel rhan o'i setliad cyflog ar gyfer 2023 gyda'i staff.

Fel y byddwch yn gwybod o drafodaethau ehangach, mae hi wedi bod yn arbennig o heriol cyrraedd setliadau cyflog teg eleni ar draws y sector cyhoeddus. Mae cynnydd mewn chwyddiant wedi mynd ymhell y tu hwnt i ragolygon ac – yn hollbwysig – darpariaethau a wnaed mewn cyllidebau yn llawer cynharach. Gosododd y Comisiwn ei gyllideb ei hun ar gyfer y flwyddyn yn ôl ym mis Hydref 2022, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog o 4% yn ei gyllideb ar gyfer 2023/24, yn seiliedig ar y farn gyffredinol ar y pryd y byddai chwyddiant yn gostwng yn sylweddol. Roedd y ddarpariaeth hon yn rhesymol yng nghyd-destun y sefyllfa a rhagolygon y cyfnod, ac yn cymryd i ystyriaeth Canllawiau Cylch Cyflog priodol y Gwasanaeth Sifil, o ystyried y rhwymedigaeth gyfreithiol a osodwyd ar y Comisiwn i roi sylw i gyd-destun y trefniadau cyflog ar gyfer Gwasanaeth Sifil y DU wrth bennu ei drefniadau cyflog ei hun. Ystyriwyd a chymeradwywyd y penderfyniad yn llawn ar lefel Gweithredol a lefel y Bwrdd. Roedd yn gyson â darpariaethau gweddol gyfoes a wnaed gan gyrff sector cyhoeddus eraill.

Dros y misoedd dilynol arweiniodd effaith chwyddiant uchel parhaus ar gostau byw at ddiweddaru Canllawiau Cylch Cyflog y Gwasanaeth Sifil – ond nid tan fis Mehefin 2023 – i ganiatáu hyblygrwydd cyflog o 4.5%, ynghyd â 0.5% ychwanegol i'w dargedu at fandiau cyflog is. Yn annisgwyl ac yn anarferol, roedd hefyd yn caniatáu ar gyfer taliad anghyfunol sefydlog o £1,500 fesul gweithiwr amser llawn, a ddaeth wedyn yn rhan o setliad cyflog terfynol y gwasanaeth sifil ar gyfer 2023.

Roedd y rhwymedigaeth ar y Comisiwn i roi sylw i drefniadau tâl ar draws y Gwasanaeth Sifil yn parhau, ond roeddem hefyd yn bryderus ynghylch effaith chwyddiant ar gostau byw ein staff, ac y byddai methu â gweithredu'r taliad o £1,500 hefyd yn cynyddu'r heriau o ran denu a chadw staff allweddol, ac felly yn cynyddu'r pwysau i gyflawni ein swyddogaethau allweddol.

Gwnaethpwyd y penderfyniad i alinio'n uniongyrchol â setliadau'r Gwasanaeth Sifil gyda dealltwriaeth glir y gallai olygu cyfuniad o fesurau i fantoli ei gyllideb gyffredinol, gan gynnwys cwtogi ar weithgareddau penodol, a mynd ar drywydd amcangyfrif atodol. Cafodd y penderfyniad ei graffu'n drylwyr gan Bwyllgor Tâl y Comisiwn, lle'r oedd ystyriaethau fforddiadwyedd yn rhan annatod o'r gwerthusiad ehangach o bwysau

cystadleuol a risgiau i gyflawniad swyddogaethau allweddol.

Gyda'r penderfyniad i ddarparu taliadau o £1,500 wedi'i wneud, mae'r Comisiwn wedi ystyried dymunoldeb torri i lawr ar weithgareddau neu gwtogi arnynt ac wedi dod i'r farn bod y dewis arall, sef cynnwys y costau ychwanegol yn ei amcangyfrif atodol, yn fwy unol â'i rwymedigaeth i gynnal ei swyddogaethau craidd heb risgiau annerbyniol i'w cyflawniad. Byddai'r opsiynau cyfyngedig sydd ar gael i'r Comisiwn i leihau gwariant yn y misoedd sy'n weddill o'r flwyddyn i gyd yn cael effaith anghymesur, gan gynnwys y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol – megis peidio â rhedeg ein harolwg olrhain blynyddol, peidio â llenwi rolau gwag, a thorri i lawr ar yr holl deithio i ymgysylltu ag awdurdodau lleol .

I grynhoi, gwnaed y taliad untro, sy'n adlewyrchu cytundeb y Gwasanaeth Sifil, am resymau dilys a dilynodd prosesau llywodraethu priodol. Roedd yn cadw at y disgwyliad bod y Comisiwn yn alinio'i setliad cyflog â'r Gwasanaeth Sifil. Cafodd y broses gwneud penderfyniadau ei dogfennu, glynodd at feini prawf a ddiffiniwyd yn glir, cafodd ei chraffu am degwch o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth, a chafodd arolygiaeth lawn gan Fwrdd y Comisiwn.

Hyderaf fod yr uchod yn rhoi'r sicrwydd a geisiwch, ac yn dangos ymrwymiad y Comisiwn i uniondeb, priodoldeb, a llywodraethu tryloyw wrth reoli tâl staff.

Yn gywir

DM

Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Cyfrifyddu

Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

# Ymateb i Bwyllgor y Llywydd – adleoli swyddfa ac argymhellion yr adroddiad

Fel rhan o'i broses graffu ar amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024/25, gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'n symudiad swyddfa yn y dyfodol agos. Mae'r manylion hyn wedi'u cynnwys yma ochr yn ochr â rhywfaint o wybodaeth am weithdrefnau cyllid a gweithio yn y dyfodol.

## Y Comisiwn Etholiadol, Cymru - symud swyddfa

### a. Gadael Tŷ'r Cwmnïau a dadfeiliadau

Ar 19 Medi 2022 daeth y brydles ar gyfer Comisiwn Etholiadol, Cymru yn Nhŷ'r Cwmnïau i ben a gwnaethom ymestyn ein harhosiad o dan drwydded i feddiannu. Estynnwyd y drwydded hon ymhellach ar 19 Medi 2023.

Mae'r adeilad presennol yn darparu lle ar gyfer desgiau i naw o bobl gydag 13 aelod o staff y Comisiwn wedi'u lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd (ac eithrio'r Comisiynydd Etholiadol). Mae hyn yn golygu nad yw'r gwagle presennol yn caniatáu i dîm Cymru weithio gyda'i gilydd ar unrhyw un adeg ac mae'n cyfyngu ar bryd y gall staff eraill sydd wedi'u lleoli yng Nghymru fod yn bresennol.

Ceisiodd y Comisiwn ddod o hyd i eiddo arall a allai gynnwys y tîm llawn (yn ogystal ag unrhyw gydweithwyr eraill sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu' syn ymweld â'r swyddfa) pan fo angen, a'n gobaith ar y cychwyn oedd dod o hyd i wagle mwy o faint yn Nhŷ'r Cwmnïau. Buom yn ymgysylltu ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth a oedd yn hyderus y gallent ddod o hyd i wagle arall yn yr adeilad. Gohiriwyd y broses hon wedyn oherwydd nad oedd Tŷ'r Cwmnïau yn gallu hysbysu Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ynghylch argaeledd gwagle tan fis Ebrill 2024.

Yna hysbyswyd y Comisiwn am fwriad Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i werthu Tŷ'r Cwmnïau, a arweiniodd at orfod edrych am wagle swyddfa amgen i ffwrdd o'r adeilad.

Fe wnaethom awgrymu i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth y dylai'r Comisiwn gael ei eithrio rhag talu costau dadfeiliadau wrth adael yr eiddo, a chytunwyd ar hynny. Fel mesur interim, gwnaethom sicrhau trwydded dreigl un mis i feddiannu sy'n caniatáu i ni ddarparu cyfnod rhybudd o fis yn unig i adael yr eiddo.

### b. Chwiliad am safle

I ddechrau, fe wnaethom gysylltu ag amrywiaeth o asiantiaid eiddo yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i asesu argaeledd y farchnad. Ni nodwyd unrhyw eiddo sector cyhoeddus priodol fel rhan o'r ymarfer hwn.

Edrychwyd ar dros 15 o adeiladau a chawsant eu hasesu ar sail lleoliad, maint, amwynderau lleol, costau rhentu a chwmpas y dodrefnu posibl. Yn dilyn yr asesiad cafodd tri safle eu cynnwys fel rhan o restr fer a dewiswyd James William House fel yr opsiwn a ffafrir (gweler yr Atodiad am ragor o wybodaeth).

### c. Rhaglen dodrefnu

Profwyd y farchnad broffesiynol a chyflwynodd pedwar contractwr dodrefnu dendrau ar gyfer y gwaith, gyda'r costau'n amrywio'n sylweddol. Cyflwynodd y contractwr llwyddiannus y costau isaf, a oedd £21,400 yn is na'r contractwr isaf nesaf, a £62,000 yn is na'r uchaf.

Mae'r gwaith dodrefnu i fod i ddechrau yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr 2024 a disgwylir iddo gymryd 6-8 wythnos. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gosod system aerdymheru newydd, diweddaru'r goleuadau LED, ail-leoli wal i greu gwagle ychwanegol yn y brif swyddfa a fydd hefyd yn galluogi i’r toiledau gael eu hailwampio a gosod cawod. Bydd y gwagle swyddfa yn cynnwys 16 o weithfannau, ystafell gyfarfod gyda wal ôl-dynadwy a fydd yn galluogi'r gwagle i newid rhwng 1 a 2 man cyfarfod a all ddal 16 o bobl. Bydd ardal ymneilltuo yn cael ei chreu y gellir ei defnyddio ar gyfer gwaith prosiect cydweithredol, yn ogystal â man ar gyfer cyfarfodydd 1-i-1 preifat a hefyd bwth cyfarfod ar gyfer cyfarfodydd nad oes angen preifatrwydd arnynt. Bydd cegin a man bwyta yn cael eu hymgorffori yn y gwagle swyddfa, a bydd staff yn elwa o gysylltedd rhwydwaith well a chyfleusterau fideo-gynadledda.

Bydd y safle newydd yn ein galluogi i:

- Mae'n cynnig potensial ar gyfer twf yn y dyfodol o ran tîm Cymru ac ar gyfer staff eraill y Comisiwn Etholiadol a fyddai am gael eu lleoli yng Nghymru.
- Cynnal cyfarfodydd o wahanol grwpiau (e.e. Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru, Panel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd ac ati) yn y swyddfa yn hytrach na gorfod dibynnu ar gyfarfodydd rhithwir neu dalu am leoliadau allanol.
- Gweithio fel tîm llawn yn y swyddfa
- Caniatáu i gydweithwyr eraill yng Nghymru weithio o'r swyddfa ar ddiwrnod o'u dewis
- Rhoi’r dewis i gydweithwyr mewn swyddfeydd eraill ymweld â’r swyddfa a gweithio oddi yno swyddfa mewn ffordd fwy hyblyg

### d. Hygyrchedd

Gofynnodd y Pwyllgor am y trefniadau hygyrchedd o fewn y safle newydd. Bydd holl elfennau’r broses dodrefnu’n ystyried hygyrchedd. Bydd yna hygyrchedd cadeiriau olwyn, o leiaf dwy ddesg eistedd i sefyll ac arwynebau cegin sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Bydd y swyddfa'n elwa o oleuadau LED newydd a system aerdymheru, sy'n welliant sylweddol ar y swyddfa yn Nhŷ'r Cwmnïau. Bydd cyfleusterau ystafell ymolchi i bobl anabl hefyd yn cael eu cynnwys.

**Tŷ’r Cwmnïau (safle presennol)**

| | | |
|---|---|---|
| **Ffi'r Drwydded Gyfredol** | £20,276.76 y flwyddyn. Mae'r gost hon ar gyfradd sero ar gyfer TAW. | Nid oes gennym brydles yn Nhŷ’r Cwmnïau ac rydym wedi bod ar drwydded i feddiannu ers 19 Medi 2022. O dan y cytundeb hwn rydym yn talu ffi trwydded fisol o £1,689.73 y mis, sy'n cynnwys yr holl gyfleustodau, ardrethi, ffioedd Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, a ffioedd Rheoli Cyfleusterau. |
| **Arwynebedd Llawr** | 1,162.5 troedfedd² | Y gost ar hyn o bryd fesul troedfedd sgwâr yw £17.44. |
| | | |
| **Rhent Blaenorol** | £10,556.00 y flwyddyn. Roedd y gost hon ar gyfradd sero ar gyfer TAW. | Hwn oedd y rhent a oedd yn daladwy hyd at ddiwedd ein prydles flaenorol. |
| **Taliadau Gwasanaeth Blaenorol** | £9,173.32 y flwyddyn. Roedd y gost hon ar gyfradd sero ar gyfer TAW. | Hwn oedd y swm a dalwyd yn ystod 12 mis olaf y brydles flaenorol. |
| **Trethi Busnes Blaenorol** | £4,174.56 y flwyddyn. Roedd y gost hon ar gyfradd sero ar gyfer TAW. | Hwn oedd y swm a dalwyd yn ystod y 12 mis olaf o dan y brydles flaenorol. |
| **Cyfanswm Costau** | £23,903.88 y flwyddyn. Roedd y gost hon ar gyfradd sero ar gyfer TAW. | Dyma’r costau cyfun ar gyfer y rhent, cyfraddau a thaliadau gwasanaeth yn ystod 12 mis olaf y brydles flaenorol. |
| **Cyfanswm y Gost fesul Troedfedd Sgwâr** | £20.56. | Mae hyn yn seiliedig ar gostau cyffredinol rhent, trethi a thaliadau gwasanaeth. |

**James William House (safle newydd)**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhent Arfaethedig** | £44,160.00 (gan gynnwys TAW) | Dyma'r rhent blynyddol a nodir yn y brydles ddrafft. Byddai’r gost rhentu hon yn cychwyn ar ddechrau blwyddyn 2, yn dilyn cost rhentu is ym mlwyddyn 1. Y gost fesul troedfedd sgwâr yw £19.20 gan gynnwys TAW. |
| **Rhent Arfaethedig (blwyddyn 1)** | £14,719.20 (gan gynnwys TAW) | Mae’r brydles ddrafft yn cynnig rhent blynyddol llai ym mlwyddyn 1. Mae’r lefel is hon o rent yn lle cyfnod di-rent. |
| **Taliadau Gwasanaeth Arfaethedig** | £13,800 (gan gynnwys TAW) | Y cap tâl gwasanaeth arfaethedig yw £6 y droedfedd sgwâr (gan gynnwys TAW) y flwyddyn, ac mae’r gost a ddangosir yn seiliedig ar yr uchafswm tâl ar gyfer blwyddyn 1. |

| | | |
|---|---|---|
| **Trethi Busnes Arfaethedig** | £17,120 | Mae'r ffigwr a ddangosir yn amcangyfrif a ddarparwyd gan y landlord. Mae Trethi Busnes fel arfer ar gyfradd sero ar gyfer TAW. |
| **Arwynebedd Llawr** | 2,300 troedfedd² | |
| | **Costau Rhedeg Ychwanegol** | |
| **Trydan** | Ddim yn hysbys ar hyn o bryd | |
| **Glanhau** | Ddim yn hysbys ar hyn o bryd | |

## Prosesau ariannol o fewn y Comisiwn Etholiadol

### a. Cyllid y Comisiwn ar gyfer 2024/25: mynd i'r afael â materion tanfuddsoddi

Mae'r Comisiwn wedi nodi sawl maes o danfuddsoddi sy'n galw am sylw ar unwaith i atgyfnerthu ein gweithrediadau:

**Seilwaith seiberddiogelwch:** Yn sgil ymosodiad seiber soffistigedig diweddar ar y Comisiwn, mae wedi dod yn hanfodol i ni atgyfnerthu ein mesurau seiberddiogelwch. Mae tirwedd esblygol bygythiadau seiber yn golygu bod angen aros ar flaen y gad o ran technoleg. Felly, mae cyfran sylweddol o'r buddsoddiad cynyddol a geisiwn wedi'i glustnodi ar gyfer gwelliannau parhaus mewn seiber-gadernid. Mae'n hanfodol cydnabod y gall natur ddeinamig y bygythiadau hyn olygu bod angen buddsoddiad ychwanegol yn y blynyddoedd dilynol i reoli'n effeithio risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**Gallu Ariannol a Chaffael:** Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rydym yn bwriadu cryfhau galluoedd ein timau cyfrifyddu a chaffael. Nod y buddsoddiad strategol hwn yw codi safonau mewn trafodion masnachol a mireinio ein swyddogaethau cyfrifyddu, cyllidebu a monitro ariannol mewnol. Ar yr un pryd, mae ehangu ein gwasanaethau archwilio mewnol yn ei gwneud yn ofynnol i ni amsugno ffioedd uwch ar gyfer mwy o fewnwelediad a phrofion, fel y mae ein harchwilwyr allanol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn dilyn mwy o brofion yn ystod cyfnod cau cyfrifon 2022/23.

**Datblygu Adnoddau Dynol:** Mae buddsoddi yn ein swyddogaethau adnoddau dynol yn hollbwysig er mwyn datblygu'r gwaith o gasglu a monitro data sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd y fenter hon yn llywio ein prosesau recriwtio a chadw staff, gan feithrin gweithle sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i wella cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer ein gweithlu, gan alinio â'n hymrwymiad i dwf gweithwyr.

Ategir pob gwelliant arfaethedig gan ymrwymiad cadarn i werth am arian ac arferion llywodraethu rhagorol.

### b. Cymryd rhan yng nghyllid y Comisiwn yn 2025/26

Gan edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2025/26, mae'r Comisiwn yn parhau'n ddiysgog wrth hysbysu Pwyllgor y Llywydd yn brydlon am unrhyw bwysau ariannol a allai olygu bod angen ceisio cyllid atodol. Byddwn yn ddiwyd yn mynd ar drywydd mesurau lliniaru i bwysau ariannol, gan alinio ein camau gweithredu â'r disgwyliadau a osodwyd ar y Comisiwn. Ar ben hynny, rydym yn awyddus i rannu manylion perfformiad yn ystod y flwyddyn a gwahodd rhagor o ymgysylltu i sicrhau tryloywder a chyd-ddealltwriaeth.

I gloi, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus yn ddiffuant, ac rydym yn ymroddedig i feithrin deialog agored a thryloyw. Mae eich cyllid yn allweddol i gyflawni ein hamcanion strategol, ac edrychwn ymlaen at eich partneriaeth barhaus.

## 3. Cyfathrebu rhwng y Comisiwn a'r Pwyllgor yn y dyfodol

Mewn ymateb i argymhelliad 3, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ein gwaith i sicrhau craffu effeithiol. Yn 2024 rydym yn cynnig cyfres o gyfarfodydd rheolaidd i sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amcangyfrif yn cael eu trosglwyddo'n brydlon. Mae rhaglen dros dro ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi'i chynnwys isod. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn darparu diweddariadau ysgrifenedig ychwanegol ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

| Cyfnod / 24 | Eitemau agenda |
|---|---|
| **C1** | Sesiwn graffu ddilynol ar amcangyfrif atodol 2023 |
| **C2** | Diweddariad ar gynllunio gweithredol a chorfforaethol a thrafodaeth ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (gan gynnwys gwerthuso gweithgarwch rheoleiddio)<br><br>Cyflwyniad i'r Prif Weithredwr newydd |
| **C3** | Nodiadau etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu<br><br>Adroddiad blynyddol a chyfrifon |
| **C4** | Sesiwn craffu ariannol ar amcangyfrif 2025/26 |

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

# Atodiad: Chwiliad am Safle – Gwybodaeth Bellach

| Eiddo | Maint (troedfedd sgwâr) | Rhent Blynyddol Rhent | Cost (fesul troedfedd sgwâr) | Car Mannau Parcio | Manyleb | Nodiadau | Cyfnod Di-rent |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **James William House** | 2,300 | £59,400 | £25.83 | 3 | Canol y ddinas<br>Oeri Cysur<br>Goleuadau LED | Roedd y gwagle swyddfa hwn ar y 4fed llawr o'r maint delfrydol i ymgorffori'r holl ofynion angenrheidiol i ddod â'r swyddfa i safon swyddfa Llundain. 6 gweithfan ychwanegol, ardaloedd ymneilltuo, mannau cyfarfod gwell a hygyrchedd gwell. Yn ystod trafodaethau prydles cynigiodd y landlord rent is, sef £44,160 gan gynnwys TAW (£19.20 fesul troedfedd sgwâr). | 8 mis o gychwyn y brydles.<br><br>6 mis ychwanegol ym mlwyddyn 6. |
| **Southgate House** | 1,886 | £55,260 | £29.30 | 1 | Canol y ddinas<br>Oeri Cysur | Roedd gan y gwagle yn Southgate House botensial, fodd bynnag byddai angen gwneud gwaith dodrefnu sylweddol. Roedd angen uwchraddio'r goleuadau i LED ac ni fyddai'r gwagle yn caniatáu ar gyfer cynnydd digonol yn nifer o weithfannau sydd ar gael. Roedd yr ardaloedd cymunedol wedi dyddio ac roedd angen diweddariad sylweddol arnynt, ac ni fyddai'r llwybr i'r swyddfa o'r brif dderbynfa yn ddelfrydol ar gyfer staff ac ymwelwyr â phroblemau symudedd. | Ni chynigiwyd unrhyw un |
| **Helmont House** | 2,089 | £76,249 | £36.50 | 4 | Canol y ddinas<br>Aerdymheru | Yr opsiwn a ffefrir i ddechrau. Rhoddwyd gwybod i'r landlord am ddiffygion a fyddai angen gwaith adfer, ond roedd y landlord yn araf yn ymgysylltu ac yn amharod i wneud rhywfaint o'r gwaith. Problemau gyda chyflenwad dŵr a seilwaith hanfodol (system aerdymheru a rheolaethau mynediad cardiau sweip wedi'u lleoli mewn cwpwrdd o fewn mangre tenant arall) | Ni chynigiwyd unrhyw un |